# Stori'r Geni



Stori'r Angel

# Stori'r Geni

## Stori'r Angel

### Gwybodaeth Gefndirol

- Yn yr iaith Roeg 'negesydd' yw ystyr angel. Mae angylion yn cael eu defnyddio weithiau i rannu negeseuon Duw.
- Mae Gabriel yn ymddangos mewn nifer o lefydd yn y Beibl. Mae e bob amser yn cyflwyno negeseuon pwysig oddi wrth Dduw.
- Roedd Gabriel a'r angylion eraill yn disgwyl yn eiddgar am y diwrnod y byddai Iesu yn cael ei eni. Nhw fyddai'n cyflwyno'r neges
- Roedd gweld angel yn sioc. Roedd y rhan fwyaf o'r negeseuon yn dechrau efo'r geiriau, "Peidiwch bod ofn."
- Roedd Mair yn gallu siarad gyda'r angel er bod ganddi ofn.

### Yn y Beibl

- Gelli ddarllen am yr angel Gabriel yn ymweld â Mair yn y Beibl, yn llyfr Luc, pennod 1, o adnod 26 i adnod 38.
- Gelli ddarllen am angel yn ymweld â Joseff yn y Beibl, yn llyfr Mathew, pennod 1, o adnod 18 i adnod 24.
- Gelli ddarllen am angylion yn ymweld â'r bugeiliaid yn y Beibl, yn llyfr Luc, pennod 2, o adnod 8 i adnod 20.

### Mae Cristnogion yn credu

- Mae angylion yn fodau ysbrydol, tragwyddol, wedi'u creu gan Dduw i'w wasanaethu.
- Am eu bod yn fodau ysbrydol does ganddyn nhw ddim corff materol fel pobl ond maen nhw'n gallu ymddangos i bobl ar ffurf ddynol.
- Mae'r Beibl yn disgrifio angylion yn moli Duw adeg y creu.
- Mae angylion yn ddoeth a deallus ond dydyn nhw ddim yn gallu gweld i'r dyfodol.

### Gweithgaredd gydag oedolyn

- Gofynnwch i'r plant feddwl am ryw dro pan gawson nhw newyddion da oedd yn syrpreis: falle clywed bod ffrind yn dod i chwarae, neu fod yna ddim gwaith cartref dros y gwyliau, neu fod babi newydd yn y teulu. Anogwch y plant i rannu eu hatgofion a siarad am sut roedden nhw'n teimlo ar y pryd.
- Mae negeseuon yn gallu cael eu hanfon mewn nifer o wahanol ffyrdd: mewn llythyr, e-bost, neges testun neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

### Myfyrio

- Pam wyt ti'n meddwl fod Duw wedi dewis angel i gyflwyno'r neges am eni Iesu?
- Pe byddai rhaid i ti gyflwyno'r neges am eni Iesu heddiw, sut fyddet ti'n ei wneud?